**Tasg 1**

# Diflas! (1)

1. Atebwch y cwestiynau isod.

a. Rhowch deitl addas i’r llun.

b. Pam rydych chi wedi dewis y teitl hwn?

c. Trafodwch y teitlau mae pobl eraill yn y grŵp wedi eu dewis a dywedwch ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â nhw.

ch. Pa un yw’r teitl gorau a pham?

2. Yn y gweithgaredd yma, rhaid i chi weithio gyda phartneriaid sydd wedi bod yn edrych ar y lluniau sy’n cyd-fynd â’r darn **Diflas! (2)** a **Diflas! (3)**.

a. Llenwch y golofn **Diflas! (1)** yn y grid ar y dudalen nesaf.

b. Ar ôl gwneud hynny, gwrandewch ar eich partneriaid yn sôn am y lluniau maen nhw wedi bod yn edrych arnyn nhw a llenwch y grid. PEIDIWCH AG EDRYCH AR LUNIAU’CH GILYDD.

c. Edrychwch ar luniau’ch partneriaid chi. Ydych chi’n cytuno â’r wybodaeth rydych chi wedi ei hysgrifenu yn y grid ar ôl i chi weld y lluniau?

3. Ysgrifennwch 3 brawddeg sy’n cymharu’r lluniau.

4. Beth yw’r syniad y tu ôl i’r lluniau hyn? Beth mae’r tri llun gyda’i gilydd yn ei gyfleu?

| | Diflas! (1) | Diflas! (2) | Diflas! (3) |
|---|---|---|---|
| Disgrifiwch y person yn ofalus. | | | |
| Pam mae'r person wedi ei wisgo fel hyn, tybed? | | | |
| Beth sy'n digwydd? | | | |
| Pa adeg o'r flwyddyn yw hi? Rhowch resymau dros eich ateb. | | | |
| Ble mae'r llun wedi cael eich dynnu yn eich barn chi?* Rhowch resymau dros eich ateb. | | | |
| Ysgrifennwch ddau ansoddair i ddisgrifio'r lle. | | | |
| Sut mae'r person yn teimlo, tybed? | | | |

*Ewch i'r adran **Atebion** ar ôl edrych an ofalus ar y llun a meddwl am y cwestiwn.